barchus â Thomas Gee yr hynaf yn barod i werthu 'Dr Boerhaave's Red Pil No. 2' a 'Solomon's Drops' ar gyfer yr 'insidious complaints' hyn yn ystod y 1820au. Bu Hughes yn gwerthu llestri a gwydr am gyfnod byr tua chanol y 1830au a daeth hefyd, fel llawer o argraffwyr a llyfrwerthwyr, yn asiant lleol i gwmni yswiriant — erbyn 1830 ef oedd asiant Wrecsam y Royal Exchange Assurance. 'Roedd yn gyfranddaliwr yn y Northern and Central Bank of England erbyn mis Mai 1835, ond ni chafodd methiant trychinebus y banc yn 1837 ddim effaith amlwg ar ei fusnes.

Prif weithgareddau ategol Richard Hughes oedd dal dwy swydd gyhoeddus; yn 1837 fe'i apwyntiwyd yn Gofrestrydd Priodasau ardal Wrecsam dan Ddeddf Gofrestru 1836. Bu hefyd yn gofalu am lythyrdy Wrecsam o 1840 ymlaen. Er y dywed Bassett iddo ymryddhau o gadw'r swyddfa bost ymhen ychydig gan fod angen y lle (yn rhif 3, Heol yr Eglwys) arno oherwydd y cynnydd yn ei fasnach, nid yw hyn yn gywir; 'roedd yn parhau yn y swydd o Bostfeistr mor ddiweddar â 1858, er bod swyddfa'r post wedi ei lleoli yn rhif 8 Heol Estyn erbyn hynny.

Gan ei fod yn dal apwyntiadau swyddogol fe'i rhwystrwyd rhag cymryd rhan ym mywyd gwleidyddol y dref, er bod ei wasg bob etholiad yn argraffu propaganda'r ymgeisydd gwrthdoriaidd. Adlewyrchai hyn draddodiad radicalaidd y teulu; yn ôl cofiant John Hughes, deallodd ei dad 'pan yn ddyn lled Ieuanc fod *Toriaeth* a *Gormes* yn ddau air cyfystyr'. Daeth Richard Hughes i gryn amlygrwydd lleol yn fuan oherwydd ei weithgarwch crefyddol ac elusennol. Yn wir ni ellir asesu gwaith Hughes fel argraffydd a chyhoeddwr heb ddeall fod cymhellion crefyddol mor bwysig, os nad pwysicach, na chymhellion ariannol iddo; credai fod cynhyrchu llyfrau adeiladol yn rhan o batrwm changach o weithgareddau Cristnogol. Felly 'roedd yn un o flaenoriaid cyntaf achos newydd y Methodistiaid Calfinaidd yn Abbot Street. Bu'n athro Ysgol Sul am flynyddoedd lawer yn Adwy'r Clawdd, ac yna, am dros hanner canrif, yn Rhostyllen. Wrth gerdded i'r ysgol arferai ddangos ei ffydd yn y gair printiedig trwy adael traethodynnau crefyddol '*pinned to stiles or gate-posts, or secured to some conspicuous spot by a small stone*'. Bu'n ysgrifennydd i gangen Wrecsam o'r Gymdeithas Feiblau am ugain mlynedd a defnyddiwyd ei siop am flynyddoedd fel canolfan leol ar gyfer dosbarthu Beiblau'r Gymdeithas. Cefnogodd y mudiad dirwestol a chymdeithasau elusennol megis y Rhos Benevolent Society.

Mae'n hawdd deall, felly, paham y canolbwyntiodd y wasg am dros ddeng mlynedd ar hugain ar gynhyrchu llyfrau crefyddol. Er bod Hughes yn Fethodist selog, 'roedd traddodiad rhyddfrydig ei deulu yn sicrhau nad oedd ei wasg yn cael ei chyfyngu i argraffu llyfrau Methodistaidd; fe argraffwyd cryn dipyn, er enghraifft, o waith Annibynwyr megis Dr George Lewis yn ystod y blynyddoedd cynnar. Cyfansoddodd Hughes ei hun o leiaf un eitem sy'n dangos ei gymhellion crefyddol: *Y Llyfr Cyntaf* (1828), llyfryn bychan 16 tudalen a fwriedid i arwain yr anllythrennog at ddarllen detholiad o wersi crefyddol syml. Cyhoeddwyd nifer o gatecismau bychain crefyddol a dirwestol di-enw yn ystod y 1830au ac mae'n bosib mai Hughes oedd awdur rhai ohonynt.

Heblaw am ambell i gatecism neu draethodyn bychan, megis yr uchod, 'roedd bron y cyfan o'r ychydig lyfrau — llai nag ugain teitl efallai — a ddaeth o'i swyddfa cyn diwedd y 1830au yn bethau a argraffwyd gan Hughes ar ran eraill, gan amlaf awduron y llyfrau. Menter beryglus oedd cyhoeddi llyfrau ond gellid disgwyl elw diogel o'u hargraffu. Serch hynny, ceir tystiolaeth bod Hughes yn anfodlon hyd yn oed i argraffu llyfr os nad oedd yn hollol sicr y byddai'n cael ei dalu am ei waith. Felly cawn John Evans (Ioan Maelor) yn cwyno ddechrau'r 1830au nad oedd Hughes, ymhlith eraill, yn barod i fentro argraffu ei gyfrol *Dil y Wenynen*, heb flaendal neu ernes ddigonol er iddo lwyddo i hel enwau chwe chant o danysgrifwyr. Dim ond trwy ofal cyson fel hyn y gallai Hughes obeithio i lwyddo yn amgylchiadau anodd ei gyfnod.


Y gyfrol sylweddol gyntaf y mentrodd Richard Hughes ei chyhoeddi oedd llyfr ei frawd John, a oedd pryd hynny yn cadw ysgol 'Fairfield Academy' yn Wrecsam. Cyhoeddwyd *Cydymaith i'r Ysgrythyrau* mewn rhannau rhwng gwanwyn 1831 a chanol 1834, yn ôl pob tebyg fel cyhoeddiad ar y cyd gan y ddau frawd. Roedd trefn pob rhan yn debycach i rifyn o gylchgrawn na rhan o lyfr gan fod 'ymadroddion detholedig' a phenillion o ganmoliaeth i'r llyfr yn cael eu cynnwys i ymestyn hyd y rhannau. Pan gyhoeddwyd ail argraffiad, tua diwedd y 1850au, diwygiwyd y cynnwys a chafwyd gwared o'r *'fillers'* hyn.

Cafodd Hughes ddihangfa ffodus ganol Rhagfyr 1835 pan geisiodd cymydog iddo, Thomas C. Davies, osod ei ffatri ganhwyllau ar dân er mwyn elwa ar yr yswiriant. Roedd Hughes yn defnyddio ystafelloedd uwchben y ffatri ar gyfer storio papur a phe bai y cynllun wedi llwyddo buasai'r cyfan o'i eiddo wedi ei losgi'n ulw. Er iddo ef a chymydog arall ddarganfod y paratoadau anfad, llwyddodd Davies i osgoi cael ei ddyfarnu'n euog ym mrawdlys Sir Ddinbych trwy ddadlau mai rhywun a dorrodd i mewn i'w ffatri a geisiodd osod y lle ar dân!

Yn ystod y 1840au bu peth cynnydd yn y nifer o deitlau a argraffwyd gan Hughes — cynhyrchwyd rhwng un ar bymtheg ac ugain rhwng 1840 a 1849, heb sôn am adroddiadau blynyddol megis *Adroddiad Cymdeithasol Genadol Gartrefol y Methodistiaid Calfinaidd* (1844+) — ac fe fu'n fwy parod i fentro cyhoeddi ambell i lyfr. Unwaith eto llyfrau John Hughes oedd yr eitemau mwyaf sylweddol a gyhoeddwyd ganddo. Cyhoeddwyd *Y Profiedydd Ysgrythyrol* tua diwedd 1946; *Drych Proffwydoliaeth* yn Ionawr 1849; a *Holwyddoreg ar Hanesiaeth Ysgrythyrol* ychydig cyn diwedd yr un flwyddyn. Bu galw cyson am y rhain am flynyddoedd; er ei fod yn llyfr cymharol ddrud (hanner coron oedd ei bris) bu'n rhaid cyhoeddi ail argraffiad o'r *Profiedydd* mor fuan â gwanwyn 1847 a thrydydd argraffiad yn 1852. Fe'i hadargraffwyd am y tro olaf yn 1883, pan argraffwyd mil o gopïau. Adargraffwyd dwy fil o gopïau o'r *Holwyddoreg* mor ddiweddar â 1890.

Awdur arall y cyhoeddwyd ei lyfrau gan Hughes o'r 1840au cynnar oedd John Phillips (Tegidon). Er bod Tegidon yn gweithio yn swyddfa argraffu Thomas Thomas yng Nghaer, cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'i lyfr i blant, *Y Tlws Arian*, gan Hughes yn ystod haf 1841. Gan i'r *Tlws* werthu'n dda — cyhoeddwyd y trydydd argraffiad yn 1846 — aeth Hughes ati i gyhoeddi rhagor o waith Tegidon, megis ei gyfieithiad o lyfryn 32 tudalen gan James Hamilton, *Yr Eglwys yn y Tŷ*, cyn diwedd 1844. Bu galw cyson am hwn am dros hanner canrif; cafwyd adargraffiad o 3,000 o gopïau mor ddiweddar â 1897.

Er bod enwau Tegidon a Hughes yn ymddangos fel cyhoeddwyr ar dudalen deitl cyfrolau o'r *Esboniwr*, misolyn i'r Ysgol Sul a olygwyd gan Lewis Edwards yn ystod 1844, dengys llythyrau Tegidon at Lewis Edwards nad oedd gan Hughes ran yn y fenter wreiddiol. Pan ddeallodd Tegidon mai dim ond tua dwy fil o gopïau, o'r ddwy fil a hanner a argraffwyd bob mis gan Thomas Thomas, a allai eu gwerthu cafodd wared y copïau gweddill trwy eu gwerthu i



ARTICLES

OF

FAITH,

SIGNED BY

The Independent Congregation,

MEETING

IN THE TOWN OF WREXHAM,

ON THE

*First day of December, A. D. 1783.*

WREXHAM:

PRINTED BY R. HUGHES, CHURCH-STREET.

1827.

*Wynebddalen yr* Articles of faith . . . *1827. Ai hwn oedd y llyfr cyntaf a argraffwyd gan Wasg Hughes?*